

Beth sy'n defnyddio Wat?

Faint o drydan ydw i'n ei ddefnyddio?

Os ydych am arbed trydan (a pham lai?) mae'n help i ganolbwyntio ar y pethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf, ac felly sy'n costio arian i chi.

Mae rhai eitemau trydanol yn defnyddio llawer o drydan. Dydy rhai eraill ddim yn defnyddio cymaint. Fel rheol, mae'r offer hynny sydd gyda rhannau symudol neu sy'n cynhyrchu gwres yn defnyddio llawer mwy na'r offer hynny sy'n cynhyrchu golau neu sain. Felly os ydych am arbed trydan ac arian, does dim pwynt poeni am gloc digidol neu rasel drydanol gan mai dim ond ychydig o ynni mae'r rhain yn eu defnyddio ac ni fydddech yn sylwi ar y gwahaniaeth. Mae'r arbedion mawr i'w cael mewn manau eraill.

Mae gan bob darn o offer trydanol raddfa ynni sy'n dweud wrthyf faint o drydan y mae ei angen i weithio. Fel arfer mae hwn yn cael ei nodi mewn watiau (W) neu gilowat (kW) (1000 = 1kW). Wrth gwrs, mae faint o drydan y mae'n ei ddefnyddio yn dibynnu ar ba mor hir mae'r offer ymlaen, ac mae hyn yn cael ei fesur mewn cilowat-awr (kWh).

Offer cyffredin a graddfa ynni gyfartalog (gall y raddfa ynni benodol amrywio'n fawr yn ddibynnol ar faint a model)

Twymwr tanddwr	3000W	Dadleithydd	300-700W
Tân trydanol	2000-3000W	Ffan echdynnu	1-36W
Rheiddiadur llawn olew	1500-2500W	Oergell	40-120W
Cawod drydanol	7000-10500W	Oergell / Rhewgell	200-400W
Peiriant golchi llestri	1050-1500W	Rhewgell	150W
Peiriant Golchi	1200-3000W	Dril trydanol	900-1000W
Sychwr dillad	2000-4000W	Sychwr gwallt	2000W
Haearn smwddio	1000-1800W	Blanced drydan	130-200W
Sugnydd Lluch	500-1200W	Teledu Plasma	280-450W
Rheilen dywelion	250W-500W	Teledu LCD	125-200W
Tostiwr	800-1500W	Fideo, DVD neu CD	20-60W
Tegell	3000W	Bocs teledu	30-40W
Microdon	600-1500W	Consol gemau	45-190W
Popty	2000-2200W	Gliniadur	20-65W
Gridyll / hob	1000-2000W	Cyfrifiadur Pendeg	80-200W
		Tabled (gwefru)	10W
		Llwybrydd band eang	7-10W
		Ffon clyfar (gwefru)	2.5-5W




A household's electricity bill is mostly for appliances like dishwashers

Ychydig o watiau fydd eitem fel oergell yn ei ddefnyddio, ond gan ei fod ymlaen drwy'r amser bydd yn defnyddio llawer o drydan. Ac er bod haearn smwddio ond yn cael ei ddefnyddio bob hyn a hyn, mae'n defnyddio llawer o drydan felly gorau po gyntaf y byddwch yn gorffen eich smwddio.


Caiff trydan ei werthu fesul cilowat-awr (kWh) - cyfeirir at y rhain fel 'unedau' fel arfer ar eich bil trydan. Os ydych yn teimlo'n fathemategol gallwch weithio allan faint mae darn o offer yn ei gostio i'w redeg drwy luosi ei watedd gyda'r amser y mae ymlaen ac yna gyda chost y trydan fesul kWh. Felly dywedwch fod gennych ddadleithydd 500W (0.5 kW) a'ch bod yn ei redeg am ddiwrnod cyfan (24 awr). Bydd yn defnyddio 12kWh o drydan (h.y. hanner cilowat bob awr). Os yw'ch trydan yn costio 13 ceiniog yr uned, yna lluoswch 12kWh gyda 13 ceiniog a chewch gyfanswm o 156 ceiniog, neu £1.56. Dyma faint mae'n ei gostio i redeg y dadleithydd drwy'r dydd, a gallwch weld felly sut mae llawer o offer yn ychwanegu at eich biliau.

Ond – ac mae'n ddrwg gen i os yw hyn yn gymhleth – weithiau bydd darn o offer sydd â watedd uwch yn defnyddio llai o ynni yn gyffredinol na darn o offer watedd is. Mae hyn oherwydd ei fod wedi ei gynllunio yn dda ac yn gwneud ei waith yn gynt. Mae'n bosib y byddai gan beiriant golchi llestri, er enghraifft, raddfa ynni o 2kW – yr un fath (neu uwch) ag un nad ydyw'n effeithlon o ran ynni. Beth sy'n ei wneud yn effeithlon o ran ynni yw ei fod yn cwblhau ei gylch yn gyflymach. Felly er ei fod yn defnyddio'r un faint (neu fwy) o drydan bob awr, mae'n gweithio am lai o amser felly'n defnyddio llai o ynni yn gyffredinol. Mewn geiriau eraill, peidiwch barnu effeithlonrwydd ynni dyfais drwy ddefnyddio



ei raddfa ynni yn unig, yn enwedig os yw'n cael ei reoli gyda thermostat neu'n gweithredu ar gylch amser.

Yn hytrach, os ydych yn prynu oergell neu deledu neu ddyfais arall newydd, y ffordd orau i farnu ei effeithlonrwydd ynni yw'r label (ar y dde). Y rhai sydd wedi eu graddio 'A' ac uwch yw'r rhai mwyaf effeithiol am eu maint. I gymharu rhwng offer o wahanol feintiau, mae labeli ynni bellach hefyd yn argraffu defnydd kWh awgrymedig fesul blwyddyn i bob darn o offer.



Monitorau ynni

Mae gan sawl cartref fonitorau ynni bellach sy'n dangos faint o drydan sy'n cael ei ddefnyddio ar unrhyw amser, yn ogystal â dangos faint sydd wedi cael ei ddefnyddio dros yr wythnos neu'r mis blaenorol. Dyfeisiadau diwifr ydynt a all ddweud pethau defnyddiol wrthynt fel faint mae'ch defnydd ynni presennol yn ei gostio i chi. Mae'n bosib y gallai'ch cyflenwr trydan hefyd roi un i chi am ddim.



Goleuo

Er nad yw un golau yn defnyddio llawer o drydan (60-100W am fylb hen ffasiwn arferol), mae dwsinau ohonynt yn ein cartrefi, felly mae'n dod i gyfanswm gweddol fawr - tua phumed o fil trydan cartref arferol. Fel rydym yn symud at fylbiau golau ynni isel bydd y cyfanswm yr ydym yn ei wario ar oleuo yn gostwng, ond mae'n dal yn werth gwirio nad ydym yn gadael golau ymlaen yn ddiangen.



Gorffwys

Mae mwy o eitemau trydanol nag erioed yn ein cartrefi'r dyddiau hyn. Bydd llawer o'r rhain yn tynnu ychydig o drydan, hyd yn oed pan nad ydynt yn cael eu defnyddio e.e. yn gorffwys. Pethau fel teledai, blychau pen set a chonsolau gemau sydd fel arfer yn cael eu cysylltu gyda chostau gorffwys, ond gallai unrhyw ddyfais drydanol fod yn cyfrannu ato.

Ac er taw dim ond 5 Wat neu lai fydd yr holl ddyfeisiau yma yn eu defnyddio (felly'n costio 1.5 ceiniog am y diwrnod cyfan), mae cyfrannu at y bil trydan. Mewn gwirionedd, mae eitemau sy'n gorffwys yn cyfrif am oddeutu 10% o fil trydan y cartref arferol - tua £50-£80 y flwyddyn.

Wrth gwrs, mae rhai eitemau'n cael eu gadael ymlaen ar bwrpas, fel llwybrydd diwifr rhyngwyd a dyfeisiadau tebyg sy'n diweddar dros nos. Ond yn gyffredinol, mae pobl yn gweld y gellir troi'r rhan fwyaf o ddyfeisiadau yn eu tŷ i ffwrdd yn llwyr heb lawer o anghyfleustra, gan arbed trydan.

Syniadau ar gyfer adnabod a lleihau costau gorffwys

- Defnyddio monitor ynni (gweler ar y dde)
- Dechreuwch arfer; sicrhewch fod troi offer i ffwrdd yn y plwg yn rhan o'ch trefn ddyddiol.
- I wneud bywyd yn haws, gallwch brynu socedi y gellir eu troi i ffwrdd gyda theclyn rheoli o bell. Maent yn costio £20-£30. Gallwch hefyd ddefnyddio plygiau amseru a fydd yn trio offer i ffwrdd ar amser penodol yn awtomatig.



We have lots more fact sheets like this on electricity use in the home: Economy 7; Getting the best deal from your energy supplier; Lighting; Reading your gas or electricity meter, Room heaters; Understanding your electricity bill; Smart meters; Night storage heaters; and more. See them all at www.cse.org.uk/advice-leaflets



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Charity: 298740
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tim Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



For energy advice:

Phone **0800 082 2234**

Email home.energy@cse.org.uk

Web www.cse.org.uk/loveyourhome



www.facebook.com/EnergySavingAdvice



www.twitter.com/cse_homeenergy